



## Newyddion o Un Llais Cymru:

Croeso i Rifyn 12 o E-fwletin Un Llais Cymru. Mae'r rhifyn yma yn llawn o'r wybodaeth ddiweddaraf am ein prosiect Argyfwng Costau Byw a'r rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, ynghyd â newyddion allweddol a chyfleoedd i gefnogi eich gwaith mewn cymunedau lleol.

---

## NEWYDDION

## Yn profi anghytundeb rhwng aelodau ac angen am gyfryngu lleol? Yna dewch i un o'r sesiynau hyn.

Fe'ch gwahoddir i gymryd rhan yn ein gweithdai i drafod swyddogaeth y Protocol Datrysiadau Lleol (y Protocol).

Bydd y sesiynau hyn yn gyfle i rannu gwybodaeth a dealltwriaeth, trafod heriau, a chydweithio ar ddulliau gweithredu arloesol er mwyn gwella'r broses. Rydym yn chwilio am amrywiaeth o unigolion, gan gynnwys Clercod a Chynghorwyr Tref a Chymuned i gyfrannu eu safbwyntiau ar y Protocol hwn, a'r gwaith a'r ymchwil a wnaed hyd yma.

Cynhelir y gweithdai ar y dyddiadau canlynol:

- Dydd Mercher 26 Tachwedd – 2:00-4:00
- Dydd Iau 27 Tachwedd – 4:00-6:00
- Dydd Mercher 3 Rhagfyr – 10:00-12:00

A fyddech cystal ag anfon eich dewisiadau o ran dyddiad ac iaith erbyn 20 Tachwedd i lgpolicy.correspondence@llyw.cymru.

----------------------------

DAD-TANYSGRIFIO – Ymddengys fod ambell gyngor wedi dad-danysgrifio o'r E-Fwletin. Os bydd e-bost cyngor yn dad-danysgrifio, bydd hwn yn cael ei adfer gan ei fod yn rhan o'ch aelodaeth, ac rydym yn gobeithio y bydd pob clerc yn rhannu'r cynnwys gyda'u aelodau. Os bydd aelod unigol sydd ar ein bas ddata yn dad-danysgrifio, ni fyddwn yn ail-ychwanegu'r cyfeiriad hwn. SYLWER HEFYD OS GWELWCH YN DDA: RYDDECH YN DAD-DANYSGRIFIO O'R DDWY IAITH OS YDYCH YN MEDDWL EICH BOD YN DAD-DANYSGRIFIO O UN YN UNIG.

------------------------------




## Dydd Gŵyl Dewi 2026: Cronfa gymorth Beilot Am fwy o manylion

Dyddiad cau 14 Tachwedd felly angen weithredu'n gyflym

.

------------------------------

Archwilio Cymru
Audit Wales

**Adroddiad Interim 2025-2026**

------------------------------

Good Practice Mentors

**Cylchlythyr ( wedi ei dderbyn gan trydydd parti felly uniaith Saesneg)**

## Cylchlythyrau allanol



**Newyddion CCW – Hydref 2025**

Croeso i'n crynodeb misol o'r ymchwil, digwyddiadau a newyddion diweddaraf gan CCW – y llais i ddefnyddwyr dŵr yng Nghymru a Lloegr.

**Profiad cwsmeriaid busnes ac ymgysylltiad yn y farchnad manwerthu dŵr**

Mae ein hymchwil ar y cyd ag Ofwat yn dangos mai dim ond 15% o gwsmeriaid busnes sy'n fodlon â'r diwydiant dŵr yn ei chyfanrwydd. Mae ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad yn parhau i fod yn isel, gyda dim ond 19% yn weithredol yn y farchnad.

Mae busnesau llai yn wynebu'r rhwystrau mwyaf, gan gynnwys gwybodaeth aneglur a chymorth manwerthwyr cyfyngedig. Eto i gyd, mae'r rhan fwyaf sy'n newid yn dweud ei fod yn werth chweil.

Darllenwch y canfyddiadau llawn




**Cylchlythyr CCW ( angen sgrolio lawr ar gyfer y fersiwn Gymraeg**

**Cylchlythyr Comisiynydd Pobl Hŷn**

---

## Ymgynghoriadau




Ymgynghoriad ar y newidiadau i reolau etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar newidiadau i reolau etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru. Mae'r rheolau ar gyfer cynnal etholiadau lleol yng Nghymru wedi'u nodi yn Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) 2021 ("y Rheolau Prif Ardaloedd") ar gyfer cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, a Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021 ("y Rheolau Cymunedau") ar gyfer cynghorau tref a chymuned. Cyfeirir atynt yn yr ymgynghoriad fel "Rheolau 2021". Cafodd Rheolau 2021 eu hailddrafftio a'u moderneiddio'n llawn yn 2021. Yn 2023, cawsant eu diweddaru ymhellach i alluogi cynnal etholiadau o dan y system Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy, pe bai unrhyw brif gyngor yn mabwysiadu'r system honno o dan y pŵer yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Nid ydynt yn cynnig gwneud newidiadau sylweddol i Reolau 2021, ar wahân i rai newidiadau, sydd i raddau helaeth yn rhai technegol, neu'r rhai sy'n

ofynnol i ystyried newidiadau i bolisi a deddfwriaeth arall.

Maent yn yn ceisio barn ynghylch y materion a ganlyn:

· diweddaru'r Rheolau i sicrhau eu bod yn ddwyieithog

· diweddaru'r Rheolau i adlewyrchu newidiadau diweddar yng Ngorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025

· cymhwyso'r newid sydd ar waith ar gyfer etholiadau i'r Senedd o ran eithrio costau sy'n gysylltiedig â diogelwch i etholiadau llywodraeth leol

· cynigion sydd wedi'u cynnwys ym mhapur strategol Llywodraeth y DU ar ddiwygio etholiadol

Bydd Un Llais Cymru yn paratoi ymateb i'r ymgynghoriad hwn a gwahoddir barn Cynghorau Cymuned a Thref erbyn 6ed Ionawr 2026. Dylid ebostio ymatebion i 'r Swyddog Polisi Dr Catrin Jones cjones@onevoicewales.wales.

-----------------------------

## Llywodraeth Cymru yn Ystyried opsiynau ar gyfer Cynllun Bwrsariaeth GIG Cymru yn y dyfodol

---

## Werth ffeindio amser i'w wylio ar wefan Un Llais Cymru:

### Dogfennau Llywodraethu Enghreifftiol a chanllawiau i Gynghorau:

**Dogfennau Llywodraethu Enghreifftiol a chanllawiau i Gynghorau :**

Mae Un Llais Cymru wedi cyhoeddi trefniadau enghreifftiol i helpu Cynghorau i redeg yn effeithiol a chyflawni eu rhwymedigaethau

statudol. Rydym hefyd yn dosbarthu canllawiau statudol a chanllawiau eraill.

Rydym yn adolygu'r trefniadau hyn yn rheolaidd, gan helpu Cynghorau i gynnal fframwaith llywodraethu cadarn

**Cliciwch ar y ddolen i weld pa ddogfennau sydd ar gael**

Mwy o Fanylion

......................

## Nodiadau Datblygu Ymarfer:

**Nodiadau Datblygu Ymarfer :**

Rydym yn gobeithio y bod Cynghorau yn gweld y Nodau Datblygu Ymarfer yn ddefnyddiol. Maent yn cynnwys cyngor ymarferol ar sut i ddelio â llawer o faterion gwahanol. Rydym yn eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn gyfredol ac i gadarnhau bod yr holl ddolenni'n gweithio ac ati. Gwiriwch y fersiynau ar ein gwefan (adran aelodau) i weld y fersiynau diweddaraf.

Gweld y Nodau Datblygu Ymarfer

......................

## Dyddiadau hyfforddiant Un Llais Cymru:

## Fideo hybu Hyfforddiant

Gwyliwch yma

**Cynghorwyr sydd yn dymuno mynychu hyfforddiant - cysylltwch a'ch clerc er mwyn iddynt llogi lle ichi ar y sesiwn penodol**

Cliciwch yma i weld rhestr dyddiadau

## SWYDDI

### Swyddi gwag yn y sector Cynghorau Cymuned a Thref:

**Swyddi Gwag:**

Fel rhan o'r aelodaeth flynyddol, mae Un Llais Cymru yn cynnig cyfle i Gynghorau Cymuned a Thref sy'n aelodau hysbysebu swyddi gwag sy'n ymwneud â'r sector, megis Clercod, Swyddogion Cyllid Cyfrifol, a rolau staff eraill.

**Gweler pob swydd gwag yma**

Mwy o Fanylion

## Swyddi Llywodraeth Cymru

Mae gyrfa yng Ngwasanaeth Sifil Cymru yn cynnig:

- cyfle i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl yng Nghymru
- dysgu yn y swydd a chyfleoedd da i ddatblygu gyrfa
- oriau gweithio hyblyg a buddion cynhwysfawr.

Mae yna wahanol ffyrdd o ymuno â'r gwasanaeth sifil yng Nghymru.

Mae'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a'r Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus sydd wedi'u cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn nodi gweledigaeth a chamau gweithredu gyda'r nod o gefnogi darpariaeth y flaenoriaeth Weinidogol allweddol hon ar gyfer Cymru.

Rydyn ni'n awyddus i weithio gyda'n partneriaid allanol i ganfod unigolion sydd â diddordeb mewn gwneud cais am swyddi bwrdd.

I weld yr hysbysebion diweddaraf ar gyfer penodiadau cyhoeddus yng Nghymru, ewch i:

Penodi Cadeirydd i Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan –

**Y dyddiad cau ar gyfer yr apwyntiadau uchod yw 21/11/2025 am 16:00.**

---------------------------------------------------------------------------

Penodi Cadeirydd - Gofal Cymdeithasol Cymru -

**Y dyddiad cau ar gyfer yr apwyntiadau uchod yw 04/12/2025 am 23:55.**

**---------------------------------------------------------------------------**

Penodi Aelodau (hyd at dri) i Gyngor Llywodraethu Tribiwnlys Prisio Cymru

**Y dyddiad cau ar gyfer yr apwyntiadau uchod yw 09/12/2025 am 16:00.**

**---------------------------------------------------------------------------**

Ysgrifennydd Preifat x3

Ysgrifennydd Preifat x3 - HEO – Cymraeg yn hanfodol

Cymorth gweinyddol – Swyddfa Breifat ac Ysgrifenyddiaeth y Cabinet x 4

Cymorth gweinyddol – Swyddfa Breifat ac Ysgrifenyddiaeth y Cabinet x 4 - Cymraeg yn hanfodol –

Ysgrifennydd Preifat Cynorthwyol ac Ysgrifennydd Dyddiadur x3 - Cymraeg yn hanfodol

Ysgrifennydd Preifat Cynorthwyol ac Ysgrifennydd Dyddiadur x3

**Y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol - Penodi Aelodau -**

**Y dyddiad cau ar gyfer yr apwyntiadau uchod yw 20/11/2025 am 16:00.**

**Penodi Aelodau Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru - Aelod o'r Bwrdd a Chadeirydd Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (ARAC) y Bwrdd –**

**Penodi Aelodau Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru - Aelod o'r Bwrdd -**

**Y dyddiad cau ar gyfer yr apwyntiadau uchod yw 08/12/2025 am 16:00**

## Cadwch y Dyddiad

**CYFARFOD BLYNYDDOL**

**UNLLAIS CYMRU**

21 IONAWR 2026

**CYNHADLEDD CENEDLAETHOL UNLLAIS CYMRU A GWOBRWYO**

1af Orffennaf 2026

**CYNHADLEDD ARFER ARLOESOL**

30 Medi 2026

---

## Diweddariadau Prosiectau a Ariannwyd gan Un Llais Cymru:

**Newyddion am Brosiect Argyfwng Costau Byw**

## Astudiaeth enghreifftiol Cyngor Tref Blaenafon

Ymunwch â ni yng Nghlwb Cyfeillio Ffilm Cyngor Tref Blaenafon, a gynhelir yn Sinema Neuadd y Gweithwyr. Cafodd ei lansio yn 2022, ac mae'r fenter anhygoel hon yn cynnig dangosiadau ffilm a lluniaeth rhad ac am ddim, gan feithrin cysylltiadau cymdeithasol a mynd i'r afael ag unigrwydd, yn enwedig ymhlith pobl hŷn. Gan gynnig dros 20 sesiwn a 50+ o wylwyr ymhob dangosiad, mae'r clwb wedi cael effaith gadarnhaol ar 1,100 o bobl leol, a chynnig man croesawgar i gymysgu, mwynhau ffilmiau o bob math, a chefnogi ei gilydd trwy gyfnodau anodd. Beth am ddarganfod sut mae'r prosiect cymunedol hwn yn mynd i'r afael ag unigedd cymdeithasol a'r argyfwng costau byw.

**Gweler yr astudiaeth ar ein gwefan**

**Gwyliwch y fideo ( Saesneg yn unig)**

-----------------------------

**🔎 Asesiad Effaith Gymdeithasol – Yn dod cyn bo hir**

Mae Un Llais Cymru wedi comisiynu Asesiad Effaith Gymdeithasol cenedlaethol i ddeall yn well ac i ddarparu tystiolaeth o'r rôl hanfodol y mae cynghorau cymuned a thref wedi'i chwarae wrth gefnogi preswylwyr yn ystod yr argyfwng costau byw. Bydd yr ymchwil annibynnol hwn yn archwilio'r mathau o gymorth y mae cynghorau wedi'u darparu, pwy sydd wedi elwa, y heriau y maent wedi'u hwynebu, a ble mae angen cymorth pellach.

Bydd yr asesiad hefyd yn edrych ar gyrhaeddiad ac effaith Prosiect Argyfwng Costau Byw Un Llais Cymru, gan gynnwys yr offer, gwybodaeth, a'r cyfleoedd cydweithio a ddarparwyd i gynghorau ers 2023. Mae hwn yn gyfle allweddol i godi proffil y sector, dylanwadu ar Lywodraeth Cymru, a chyflwyno achos dros fuddsoddiad yn y dyfodol.

Byddwn yn gwahodd pob cyngor i gymryd rhan mewn arolwg byr yn ystod yr Hydref – bydd eich mewnbwn yn hanfodol i sicrhau bod eich gwaith yn cael ei gydnabod.

Cysylltwch â ni yn colc@onevoicewales.wales neu dilynwch ni ar Fforwm Argyfwng Costau Byw Un Llais Cymru Cost of Living Crisis Facebook Forum.

--------------------------------

**Lleoedd Lleol ar gyfer Natur:**

**Gweithdai Adran 6**

Diolch i bawb sydd wedi mynychu ein Gweithdai Adran 6. Maent wedi bod yn boblogaidd iawn gyda bron i 300 o gyfranogwyr ar draws 7 gweithdy. Llenwyd y dyddiad ychwanegol mewn un diwrnod yn unig. Mae un gweithdy ar ôl ar 13 Tachwedd ac mae hwn bellach yn llawn.Gofynnir i bob Cyngor anfon copi o'u Hadroddiadau Adran 6 wedi'u cwblhau atom, gan gynnwys y ddolen URL i'w gwefan lle mae'r adroddiad wedi'i gyhoeddi. Anfonwch i: **Bioamrywiaeth@unllaiscymru.cymru**

Ar ôl y sesiwn olaf, bydd yr holl wybodaeth o'r gweithdai yn cael ei uwchlwytho i'n gwefan.Bydd 2026 yn nodi dechrau'r cyfnod nesaf o adrodd ar gyfer Adran 6, a byddwn yn cynnal cyfres o weithdai i helpu CTaCH i baratoi eu Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth yn y Flwyddyn Newydd. Mwy o fanylion i ddod yn fuan...

**Gallwch ddod o hyd i lawer o wybodaeth a chyngor ar Adran 6 ar ein gwefan.**

**Pecynnau Bioamrywiaeth**

Mae Deg Pecyn ar agor ar gyfer ceisiadau; gallwch ddarganfod mwy yma: Pecynnau Bioamrywiaeth OVW. Byddwn yn dosbarthu'r Pecynnau Bylbiau dros y mis nesaf, felly cysylltwch â ni cyn gynted â phosibl i drafod cais.

**Bioamrywiaeth@unllaiscymru.cymru**

---

Gwefan CIvic.ly

---

**Un Llais Cymru / One Voice Wales**

24c Stryd Y Coleg,

Rhydaman

Mae'r E - Bwletin yma yn cael ei dosbarthu i bob Cyngor yng Nghymru . Dylid nodi os ydych yn dad tanysgrifio mi fyddwch yn colli

SA18 3AF

mynediad i'r ddau fersiwn Cymraeg a Saesneg

Dad-Tanysgrifio / Unsubscribe

SENT BY mailerlite